

Mr Geraint Jones
CAIS Cyf
12 Sgwâr y Drindod
Llandudno
Conwy
LL30 7NG

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

27 Ionawr 2014

Annwyl Mr Jones,

Par: Ymweliad â Hafan Wen ar 9 a 10 Ionawr 2014

Fel y gwyddoch, bu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Hafan Wen ar 9 a 10 Ionawr 2014. Tynnodd ein hymweliad sylw at feysydd nodedig yn cynnwys:

- Roedd y grŵp cleifion yn gadarnhaol iawn yn eu hadborth ar y staff a'r gofal a roddwyd.
- Ansawdd, dewis ac amrywiaeth y bwyd a oedd ar gael.
- Roedd y model ar gyfer dadwenwyno cyffuriau ac alcohol yn amlwg wedi datblygu ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd bellach yn canolbwyntio ar amrywiaeth o fodelau triniaeth.
- Roedd y gwaith papur diweddar yn ymwneud â goruchwyllo staff yn llawn gwybodaeth ac yn ystyried y cynnydd a wnaed ar gamau gweithredu blaenorol.
- Ystod eang y gwirfoddolwyr a ddefnyddiwyd er budd y gwasanaeth.
- Disgyblaethau niferus ac amrywiol y staff a oedd ar ddyletswydd.

Tynnodd ein hymweliad sylw at nifer o broblemau hefyd. Gwnaethom roi trosolwg o'n pryderon ar lafar i'ch rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 10 Ionawr 2014. Mae crynodeb o'r rhain, yn cynnwys achosion o dorri rheoliadau, isod:

Mater o bryder	Rheoliad
1. Nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â ffeiliau gofal. Ymhlith y rhain roedd y canlynol: a. Nid oedd siartiau goruchwyllo'r cleifion unigol yn bodloni'r safon yr hysbyswyd AGIC amdani. Ni weithredwyd safon yr ysbyty o gynnal archwiliadau cleifion bob hanner awr ar gyfer y chwech awr gyntaf ar ôl eu derbyn i'r ysbyty yn achos nifer o gleientiaid (A, B, C ac Ch). b. Ni lofnodwyd siartiau goruchwyllo client A ac ni roddwyd y dyddiad arnynt ychwaith. c. Nid oedd Client E wedi llofnodi rhai dogfennau allweddol ac ni chafwyd esboniad am y llofnodion coll. d. Nodwyd nifer o risgiau o fewn asesiadau risg cleientiaid B ac C, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynlluniau gofal ar waith. e. Cafodd cleient B ei dderbyn i'r ysbyty cyn 10:30, fodd bynnag ni gofnodwyd unrhyw beth yn y dyddlyfr cynnydd dyddiol tan 17:10. f. Dim oedd digon o fanylder yng nghynlluniau cleientiaid ac mae angen datblygu'r rhain er mwyn iddynt ddod yn ddogfennau ystyrlon. Rhaid mynd i'r afael â'r holl feysydd a nodwyd ar frys.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)
2. Nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r ystafell driniaeth/clinig. Ymhlith y rhain roedd y canlynol: a. Mae fferylllydd o'r bwrdd iechyd lleol yn cynnal archwiliad o'r ystafell driniaeth/clinig ond nid yw'n llunio adroddiad/archwiliad o'r canfyddiadau. b. Gwrthododd claf E ei feddyginiaeth ar 7 Ionawr 2014 ac ni nodwyd hynny yn y cofnod rhoi meddyginiaeth. c. Dim llofnod cyntaf yn y llyfr cyffuriau rheoledig (F) d. Roedd llofnod tyst yn y llyfr cyffuriau rheoledig ond roedd y cofnod wedi'i groesi allan (F). Mae'n annerbyniol i dyst lofnodi cofnod cyn y llofnod cyntaf sy'n cadarnhau pwy sy'n rhoi'r feddyginiaeth. e. Roedd cofnod dyddiedig 23 Rhagfyr 2013 wedi'i groesi allan. Mae'r hyn a ddigwyddodd	Rheoliad 15 (5) (a) a (b)

gyda'r cofnod hwn yn aneglur gan fod stoc a'r broses o roi'r feddyginiaeth wedi'u cynnwys yn yr un cofnod. f. Cofnodwyd bod Chlordiapoxide wedi'i roi ond roedd yn gofnod hwyr (4 Ebrill 2013). Fodd bynnag, nid oedd llofnod i'w weld. g. Nid oedd amser nac ail lofnod ar gofnod dyddiedig 13 Mai 2013. h. Roedd rhybuddion cyffuriau yn y ffeil ond nid oedd cofnod o'r camau gweithredu a gymerwyd, er enghraifft dyddiad a llofnod y gwiriwr. 3. Roedd yn anodd cadarnhau pa hyfforddiant yr oedd staff wedi'i gael a phryd y byddai angen eu hyfforddi nesaf. Rhaid datblygu system gynhwysfawr ar gyfer cofnodi hyfforddi. 4. Nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â ffeiliau staff. Ymhlith y rhain roedd y canlynol: a. Nid oedd gan bob cyflogai eirida yn ei ffeil. b. Nid oedd digon o wybodaeth i nodi unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerwyd ar ôl cael gwiriad cadarnhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). c. Nid oedd ffeiliau staff wedi'u trefnu'n glir. Byddai mynegai ar flaen y ffeil yn helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. d. Nid oedd digon o nodiadau yn ymwneud â'r cyfweiliadau yn y ffeiliau. e. Nid oedd rhai o'r ffeiliau staff yn cynnwys disgrifiad swydd a/neu archwiliad meddygol. 5. Rhaid cyflwyno system llywodraethu ac archwiliad clinigol ym mhob maes, gan gynnwys cynlluniau gofal. 6. Rhaid cynnal arolygiad o'r ystafell feddygol/ystafell y meddygon. Mae'n rhaid archwilio'r ystafelloedd meddygol yn rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw hen nwyddau neu gynhyrchion, a'u bod yn cael eu cadw a'u glanhau yn briodol. Yn ystod ein hymweliad roedd rhai cynhyrchion meddygol yn yr ystafell â hen ddyddiad arnynt ac roedd angen glanhau'r ystafell feddygol ar y llawr cyntaf yn drylwyr.	Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a) a (b) Rheoliad 20 (2) (c) a Rheoliad 21 (a) (c) (2) (a) (b) a (d) Rheoliad 9 (o), 13 (1) a 19 (1) (a) a (b) Rheoliad 15 (2) a 26 (2) (a)
---	--

Mae gofyn i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **24 Chwefror 2014** yn nodi'r camau gweithredu rydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl faterion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion am bwy fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r cam. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol, bydd angen i chi rhoi diweddariadau misol ar eich cynnydd.

Pan fyddwn yn derbyn y llythyr hwn, bydd gofyn i'r Darparwr Cofrestredig wneud sylw ar gywirdeb ffeithiol y materion y manylir arnynt a phan fyddwn yn derbyn eich cynllun gweithredu byddwn yn cyhoeddi copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn dod ar ymweliad arall i sicrhau bod y materion wedi'u datrys yn gywir a byddwn yn ymweld yn fwy cyson os byddwn yn pryderu nad ydych yn bwrw ymlaen â'r cam gweithredu priodol mewn modd amserol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Ms Elizabeth Jones, Rheolwr Ysbyty Hafan Wen.

Yn gywir



Mr John Powell

Pennaeth Rheoleiddio

cc Ms Elizabeth Jones, Hafan Wen, Watery Road, Wreccsam, LL13 7NQ